

Plas Tan y Bwlch

Roeddwn wedi bod yn edrych ymlaen i fynd ers wythnosau a wedyn pan ddaeth hi yn ddydd Iau roeddwn yn llawn cyffro ac yn barod i fynd. Cyrhaeddais yr ysgol i weld pawb yn y dosbarth yn neidio oherwydd eu bod yn edrych ymlaen gymaint gyda esgidiau cerdded, siwmperi a bagiau anferthol ar eu cefnau-pawb yn barod i gychwyn! Roedden nhw yn amlwg yn barod i faeddu a mwynhau y ffeithiau diddorol fel y fi!

Fe drodd y bys bach a'r cloc ar naw ac allan a ni mewn un rhes hir ac i fewn i'r bws mini. Roedd ein bagiau a chesus yn mynd mewn bws arall. Cymerodd y daith hydroedd ond fe gawsom lwythi o hwyl yn son am beth oeddem yn edrych ymlaen ato fwyaf.

Edrychais drwy ffenest y bws. Roedden ni yn agos iawn-pum munud i fynd. Arhosodd y bws! Ar ol inni gyrraedd fe rois naid oddi ar y cerbyd cyn dilyn Catherine a Mrs Jones i mewn i'r adeilad. Tra roeddem ar ein ffordd i'r stabl aethom drwy y neuadd ymgynnull. Aethom heibio y stabl arall a dyna lle roedd ein bagiau yn eistedd yn ddel. Daliom i fynd yn syth heibio y bagiau ac wedyn troi i'r dde ac roeddem wedi cyrraedd y stabl. Dyna y lle gwnaethom y rhan fwyaf o'n gweithgareddau. Yn gyntaf daeth Mr a Mrs Roberts i'n gweld gyda Judith ac Ariella – dwy ddynes sydd yn gweithio fel athrawon ym Mhatagonia.

Roedd Mr a Mrs Roberts wedi dod a llawer iawn o bethau i ni eu gweld. Fe welsom lwythi o luniau roedden nhw wedi eu tynnu yn ystod eu cyfnod ym Mhatagonia. Roedden nhw yna am flwyddyn gyfan. Fe ddysgom lawer o ffeithiau fel bod yr ardal yn ofnadwy o dlawd a bod pob dim yn ddrud iawn yna.

Felly roedd y plant yn gorfod mynd a phapur offer ysgrifennu a llawer mwy i'r ysgol.

Roeddem wedi gweld llawer o bethau yr oedden nhw wedi ei wnaud allan o ddim llawer ac roedden nhw yn edrych yn wych fel gwaith rhywun sydd yn arbenigwr neu arbenigwraig. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn mynd i ysgol ddawnsio gwerin ar ol ysgol arferol. Dydw i ddim yn siwr iawn faint o oriau oedden nhw yn y ddwy ysgol ond dwi yn siwr eu bod nhw yno yn hir iawn. Rhywbeth fel 9:00 tan 6:00 ond fel ddywedais i, dwi ddim yn siwr iawn.

Buaswn yn dweud mai fy hoff ffaith yn y weithgaredd oedd fod yna ffrindiau a theulu yn yr Haf yn mynd i eistedd mewn afonydd oherwydd ei bod hi mor boeth ac wedyn roeddent yn rhoi dail te mewn rhyw fath o gwpan ac rhoi dwr poeth ar ben y dail te ac yn ei yfed gyda rhyw fath o welltyn arbennig fel fod yr hen ddail te ddim yn dod allan. Doedd gan bawb ddim un o'r rhain felly roeddent yn ei rannu ac os doedd yna ddim mwy mi oeddent yn rhoi mwy o ddwr poeth ar ben y dail te.

Wedyn fe ddechreuodd Judith a Ariella siarad gyda ni ac fe oedd ganddynt lawer o ffeithiau diddorol unwaith eto. Oherwydd eu bod yn byw ym Mhatagonia roeddent yn gallu dweud mwy ac dwi yn siwr mai ymfudo i Batagonia wnaeth teulu Judith lawer o flynyddoedd yn nol.

Roedd Judith ac Ariella yn siarad Cymraeg ond roedd Judith yn fwy rhugl nac Ariella ond roedd Saesneg Ariella yn dda iawn. Fy hoff ran o sgwrs Ariella a Judith oedd pan ddechreuont siarad Sbaeneg gyda'i gilydd. Dim ond acen o'r Bala yn Gymraeg oedden nhw wedi ei glywed o'r blaen felly roedden nhw yn gweld ein hacen ni yn ddiddorol iawn.

Fy hoff luniau oedd lluniau tirwedd Patagonia. Roeddwn yn gwybod ei fod yn sych ofnadwy ond fe gefais sioc o weld pa mor sych oedd hi yno go iawn. Hefyd roeddwn yn hoffi y lluniau o bawb yn dawnsio gwerin mewn gwisgoedd Cymreig.

Yn y diwedd fe gawsom ofyn cwestiynau. Fe ofynais i os oedd papur newydd Y Drafod yn dal yn cael ei gynhyrchu oherwydd fod Lleucu wedi dod a phapurau a lluniau ei hanti i'r ysgol ar ol iddi fod ym Mhatagonia. Yn wir i chi roedd y papur dal yn cael ei gynhyrchu.

Roedd yr amser wedi hedfan ac roedd hi yn amser cinio erbyn hyn. Yn y Plas ei hun oedd yr ystafell fwyta. Roedd yna dri bwrdd wedi cael ei osod ac fe wasgarodd pawb ar hyd y byrddau. Bwytais bob briwsionyn o'r cinio. Tatws drwy'u crwyn oedd y cynnig. Llowciodd pawb bob tamaid. I bwddin fe gawsom bengwin a ffrwyth.

Erbyn hyn roedd pawb yn edrych ymlaen yn fawr i fynd i weld Castell Harlech. Ond roedd yn rhaid inni roi dillad cynnes oedd yn dal dwr. Wedyn roedd pawb yn barod i fynd ar y bws.

Cyn inni fynd i mewn i'r castell fe ddywedodd Ann ychydig o'i hanes . Fe wnaeth ei gorau i ddangos y brif fynedfa er yr holl waith adeiladu! Doedden ni ddim yn medru mynd i fewn drwy'r brif fynedfa oherwydd roeddent yn gweithio ar ffordd i bobl anabl ddod i mewn i'r castell.

I fedru mynd i fewn roedd yn rhaid inni groesi pont arbennig. Wedyn dangosodd Ann dyllau anferth yn y wal lle roedd y planciau o bren yn cloi y drysau o'r blaen. Buom ym mhob rhan o'r castell. Yn un rhan roedd yna wybodaeth a hanes am yr arweinwyr a fu yn rheoli yno. Yn ychwanegol roedd yna gynlluniau a modelau o'r castell.

Buom yng nghwrt y castell (canol y castell). Dangosodd Ann lle fuasai'r ystafelloedd wedi bod yno. Doedd deall hynny ddim yn hawdd iawn oherwydd roeddent wedi cael eu dinistrio. Rwyf yn cofio fod yna ystafell fwyta, cegin a rhyw fath o gapel/addoldy. Yn yr ystafell fwyta roedd yna dwll yn y wal sef lle fuasai'r cwn wedi ei ddefnyddio i adael yr ystafell.

Yn olaf aethom i gerdded ar hyd waliau y castell. Tydw i ddim yn cofio enwau y tyrau ond ar y pryd roeddwn wrth fy modd yn darllen y placiau bach ac roedd yna blac ym mhob

ystafell hefyd. Pan oeddem ar ben y waliau roedd Ann yn dangos sut oedd yr arweinwyr yn cael eu milwyr o'r mor i'r castell ond tydi hynny ddim yn bosibl rwan oherwydd fod yna dwyni anferthol o dywod wedi codi a buasai milwyr yn gorfod cerdded milltiroedd i gyrraedd y castell.

Ar ol cyrraedd y cwrt fe aethom i gyfarfod a rhywun sydd yn helpu i edrych ar ol y castell. Enw y mudiad hwnnw yw Cadw. Cawsom ofyn cwestiynau a fe roddwyd lawer iawn o wybodaeth am y castell i'r holl ddisgyblion. Buswn yn dweud mai gwybodaeth am y dwnjwn a gawsom ni fwyaf. Ac fe ddywedodd bod carcharorion yn cael eu taflu i lawr ac roedd hynny yn beth ofnadwy oherwydd buasech mewn poen a neb i'ch helpu!

Roedd hi yn amser mynd erbyn hyn. Cyn cychwyn yn nol at y bws mini arhosom wrth gerflun y tu allan i'r castell. Tra yr oeddem yno cawsom hanes Branwen a beth oedd y cerflun ond ceffyl heb gynffon na chlustiau a dyn yn eistedd ar ei gefn heb freichiau a choesau. Yn ychwanegol tu ol y dyn roedd yna hogyn bach yn gorwedd dros gefn y ceffyl. Doedd neb ohonom yn deall ystyr y cerflun nes i Ann egluro.

Cychwynom yn ol ar hyd y stryd yn nol ar y bws. Pentyrodd pawb iddo ac i ffwrdd a ni yn ol i Blas Tan y Bwlch. Doedd y daith yn ol i'r Plas ddim yn teimlo mor hir ar un i'r castell. Roedd pawb yn llawn cyffro i gael gwybod ym mha ystafell oeddem ac gyda pwy oeddem yn ei rhannu. Rhewodd y bws mini. Roeddem wedi cyrraedd yn ol. Unwaith eto rhoddodd pob plentyn sbonc oddi ar y bws a dilyn Mrs Jones a Catherine yn ol i'r stablau. Eglurodd Ann reolau y Plas a thynodd pawb eu dillad dal dwr a esgidiau cerdded/esgidiau glaw. Aethom i'r ystafell ymgynnull a chyhoeddodd Ann gyda pwy yr oedden yn rhannu ystafelloedd.

Ar ol i bawb gael glywed y wybodaeth diflannodd pawb i'w ystafelloedd i ddad bacio a newid i ddillad glan i fedru mynd am swper. Roedd Lleucu a finnau yn gwneud gwalltiau y rhan fwyaf o'r genod. Y peth nesaf oeddem ni yn ei wybod oedd

fod yr hogiau yn rhedeg yn wyllt i lawr ein coridor yn ysu eisiau bwyd. Ond wrth gwrs doedd gennym ni ddim clem beth oedd yr holl swm tan i ni roi ein pennau o gwmpas y drws a gweld yr hogiau yno yn wen o glust i glust.

Llithrodd pawb i lawr y grisiau yn trio eu gorau i beidio gwneud gormod o swm. Roeddem yn meddwl ein bod yn mynd i gael swper ond roedd gan Ann sypreis bach i ni. Roedd gennym chwarter awr i dynnu llun rhywbeth hanesyddol o'r Plas neu rhywbeth fuasai yn ein hatgoffa o'r Plas. Roedd yr holl luniau yn ardderchog – rhai wedi gwneud rhwbiadau o'r cerfluniau pren ar y wal, eraill wedi gwneud llun gyda llaw ond redden nhw i gyd yn wych!

Fe aeth chwarter awr heibio fel slecs, a chyn inni droi rownd roedd hi yn amser swper. Bolones oedd yna i swper a dwi wedi anghofio yn llwyr beth oedd yna i bwddin! Roeddem yn eistedd ar yr un byrddau a'r tro diwethaf. Llowciodd pawb eu bwyd ac wedyn i ffwrdd a ni i weld Benji.

Roedd Benji wedi dod i ddangos arwisgoedd ac arfau. I ddweud y gwir roedd ef a'i wraig wedi gwneud rhai ohonynt eu hunain, a phrynu rhai eraill. Roedd yr holl bethau yn wych, fedra i ddim egluro faint wnes i fwynhau ac roeddwn ar bigau'r drain pan oedd Benji yn trywanu ei hun. Er ei fod yn gwisgo arfwisg roeddwn yn gorfod cau fy llygaid. Yr unig beth oedd yn mynd trwy fy meddwl oedd beth petai yn torri ei hun, neu beth os

Mae'n rhaid i mi ddweud mai hwn oedd fy hoff ran o'r ymweliad i Blas Tany Bwlch. Fe ddangosodd tua saith saeth gwahanol a phwrpas gwahanol i'r rhan fwyaf ohonynt. Yn y diwedd aeth Catherine i fyny i drïo y crys chiaen, ac roedd yn ofnadwyo drwm. Roedd yr arfwisg yn pwysu llwythi heb son fod rhywun yn gorfod ymladd yn yr holl bethau. Buaswn i yn dweud mai fy hoff ffaith i oedd eu bod yn gorfod gwisgo uchben o dan y cheini oherwydd ei bod yn mynd yn rhy boeth a bod y cheini yn mynd yn fflamboeth. Yn y dechrau roedd yna

lawer o filwyr yn marw gan nad oedd ganddynt rywbeth dros y cheini i'w harbed rhag yr haul.

Yn olaf un cafodd pawb fynd i drïo a chyffwrdd yr holl bethau. Roedd pawb yn gweld yr holl beth yn ddiddorol ac yn gweld faint oedd pethau wedi datblygu dros yr oesoedd.

Erbyn hyn roedd pawb wedi dechrau agor eu cegau oherwydd eu bod yn barod i fynd i'w gwelyau clyd. Aeth Ceri, Alaw ac Ella adref. I ffwrdd a phawb arall i'w gwylau a dechrau setlo i lawr. Molchodd pawb a newid i'w dillad nos a llithro o dan y dillad gwely a chysgu'n sownd tan y bore!!!

Deffais awr yn gynnar am 6.30 yn lle 7.30, ond syrthiais yn ol i gysgu am tua hanner awr ac wedyn dechrau ymolchi a newid yn barod am y diwrnod cyffrous oedd o'n blaenau.

Diflannu wnaeth brecwast pawb mewn eiliadau a mwynhodd pawb. Ar ol brecwast aeth pawb i bacio a gwisgo dillad dal dwr ac esgidiau cerdded neu esgidiau glaw. Ar yr ail ddiwrnod roeddem yn mynd i'r Ysgwrn, sef hen dy Hedd Wyn, a mynd i weld ei gofgolofn. Yn ddibynnol ar y tywydd roeddem yn mynd am dro bach i'r goedwig wedyn.

Ar ol i bawb bacio sgipiodd pawb am y bws mini ac i ffwrdd a n ii wrando am lawer o wybodaeth am Hedd Wyn a'i gadeiriau gan Gerald.

Doedd Gerald ddim wedi newid dim ar yr hen dy er ei fod wedi bod yn byw ynddo tan yn ddiweddar. Roedd wedi gwneud heb drydan na dim byd modern ac rwy'n meddwl ei fod yn nol dwr o'r ffynnon.

Roedd Gerald yn wych am egluro yr holl bethau tra roeddem yn eistedd o flaen y tan poeth. Roedd ganddo rywbeth diddordol iawn, sef mawn i gynnu y tan.

Dilynodd Hedd Wyn gamau ei dad wrth ysgrifennu barddoniaeth gan bod ei dad wedi enill mewn eisteddfod unwaith. Enillodd Hedd Wyn chwe cadair gan gynnwys y Gadair Ddu.

Roedd gan y teulu ddwy forwyn yn y ty sef y brif forwyn a'r forwyn fach. Roedd y forwyn fach tua 13 oed ac wedi gorfod gadael ei theulu. Doedd y brif forwyn ddim yn cael ei chyflog bob wythnos rhag ofn iddi benderfynu gadael y fferm. Wedyn buasai yn ddrwg iawn ar y teulu oherwydd fuasai ganddyn nhw neb i olchi dillad ac i lanau'r ty a phethau felly.

Yn ol yn y Plas cawsom holiadur gan fod y tywydd wedi troi o ddrwg i waeth a buasai wedi bod yn amhosibl i ni fynd i'r goedwig. Er mwyn ateb y cwestiynau roedd yn rhaid mynd o un ystafell i'r llall i gael yr atebion. Doedd hi ddim yn bosibl mynd i bob ystafell gan bod cyrsiau ymlaen ynddynt felly roedd rhaid defnyddio'r cof.

Dyna ddiwedd hanes ein hymweliad a Phlas Tan y Bwlch. Mae'n rhaid i mi ddweud i mi fwynhau yr ymweliad yma yn fawr iawn. Roedd pob tamaid yn llawn gwybodaeth a hanes ac roedd pob un o'r plant fel sbwng yn amsugno ffeithiau!

Ffion Enlli Davies - Blwyddyn 6